COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD NOS LUN, 11EG IONAWR 2010 AM 6.30 p.m.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd C. Perry (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr W. Bagnall, J. Davies, Mrs J. Geddes, Mrs J. Griffiths, G. Hughes, A. Khan a P. Richards.

SWYDDOG YN BRESENNOL: Y Clerc

348 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB:

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Mrs L Danson M.B.E., Mrs L Edwards, Mrs S Harley, Mrs H Meredith, a Mrs S Roy.

349 PENDERFYNIADAU AR GEISIADAU CYNLLUNIO:

Cyflwynodd y Clerc hysbysiad am y penderfyniadau a wnaed ar Geisiadau Cynllunio gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am y cyfnod 16/11/2009 – 27/12/2009.

Penderfynwyd derbyn yr hysbysiad a'i nodi.

350 CROESFAN I GERDDWYR AR Y PROMENÂD, LLANDRILLO YN RHOS:

Cyflwynodd y Clerc llythyr i'w ystyried oddi wrth Beiriannydd Traffig Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ynglŷn â darparu goleuadau traffig ar y groesfan i gerddwyr ar y Promenâd.

Nid oedd yr aelodau yn cytuno â sylwadau'r gohebydd bod yr amser ciwio yn ddi-nod, yn arbennig ym misoedd yr haf. Bydd traffig yn ciwio'n ôl yn Rhos Road a Rhodfa Penrhyn yn ogystal ag ar y promenâd. Yn aml fe gymerir mwy na 5 eiliad i groesi.

Penderfynwyd derbyn y llythyr a'i nodi.

Fe benderfynwyd ymhellach bod y Clerc i anfon sylwadau'r aelodau at Adran Briffyrdd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a gofyn iddynt adolygu'r sefyllfa.

351 PARCIO Y TU ALLAN I YSGOLION:

Cyflwynodd y Clerc neges e-bost i'w ystyried gan Heddlu Gogledd Cymru parthed parcio anghyfreithlon y tu allan i ysgolion, ynghyd â llythyr oddi wrth Adran Briffyrdd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Roedd yr aelodau o'r farn mai'r Heddlu oedd yn gyfrifol am orfodi ac nid y Swyddogion Sifil Gorfodi Traffig. Hefyd roedd y datganiad yn llythyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy mai awgrymog oedd y marciau igam ogam, yn anghywir. Roedd yr Arolygydd Cyfrifol ym Mae Colwyn wedi datgan ei fod

yn anghyfreithlon i godi neu i osod i lawr ar y marciau igam ogam ar unrhyw adeg yn unol â Rheolau'r Ffordd Fawr.

Penderfynwyd derbyn y dogfennau a'u nodi.

Fe benderfynwyd ymhellach bod y Clerc i anfon sylwadau'r Cyngor at Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

352 RHYBUDD AM APELIADAU CYNLLUNIO:

Cyflwynodd y Clerc rhybudd am yr apeliadau cynllunio mewn perthynas â:-

1. 35 Rhodfa Pwllycrochan, Bae Colwyn - dymchwel tŷ ac adeiladu 4 o dai 3 llawr a garejys.
2. 6, Bryn Carrog, Bae Colwyn – Trosi atig i fod yn ystafell wely ensuite.

Penderfynwyd derbyn y rhybudd.

353 RHAGLEN GOSOD COLOFNAU NEWYDD I OLEUO STRYDOEDD:

Cyflwynodd y Clerc llythyr oddi wrth Beiriannydd Goleuo Strydoedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy parthed gosod colofnau goleuo yn Ffordd Conwy a Ffordd Abergele,

Mynegodd yr aelodau eu pryderon am y natur cam wrth gan o gynllunio at y dyfodol h.y. bod y colofnau yn Sea View Road, Ffordd yr Orsaf a Ffordd Penrhyn yn brosiectau unigol tra bo'r Adran Goleuo Strydoedd yn gyfrifol am Ffordd Gonwy a Ffordd Abergele.

Yn ogystal, dywedodd y Clerc nad oes unrhyw gyflenwad i'r colofnau newydd yn Rhodfa Victoria a chafwyd problemau efo'r cyflenwad i Oleuadau Nadolig yn Ffordd yr Orsaf.

Penderfynwyd derbyn y llythyr a'i nodi.

Fe benderfynwyd ymhellach bod y Clerc i dynnu sylw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy at bryderon y Cynghorwyr am y ddarpariaeth at y dyfodol, yn arbennig yn ardal Ffordd Conwy rhwng Ffordd Penrhyn a Ffordd yr Orsaf.

354 MANNAU PARCIO I DALWYR BATHODYNNAU I'R ANABL A PHOBL ANABL:

Cyflwynodd y Clerc hysbysiad bod Mannau Parcio i Bobl Anabl wedi cael eu creu yn:-

a) 25, Grove Park, Bae Colwyn
b) 3, Canning Road, Bae Colwyn
c) 39, Grove Park , Bae Colwyn
ch) 6, Llys Parc, Llandrillo yn Rhos
d) 5, Berthes Road, Hen Golwyn
dd) 53, Rhos Road, Llandrillo yn Rhos
e) 12, Ffordd Hafryn, Bae Colwyn
f) 39 & 49, Ffordd Llanelian, Hen Golwyn.

Dalwyr Bathodynnau i'r Anabl - Cyffredinol
Rhodfa Bodelwyddan, Hen Golwyn, Ochr ddwyreiniol

Dirymu
27, Llewelyn Road, Bae Colwyn

Penderfynwyd derbyn yr hysbysiad.

355 BRYN EURYN:

Rhoddwyd ystyriaeth i lythyr oddi wrth y Swyddog Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy parthed cynnal a chadw'r glaswelltiroedd ar Fryn Euryn.

Penderfynwyd derbyn y llythyr a'i nodi.

356 CYFARFOD TÎM DIOGELU ANSAWDD BYW YN Y BAE:

Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14/12/2009.

Dywedodd y Cynghorydd G. Hughes, cynrychiolydd y Cyngor ar y Pwyllgor, ei fod o'r farn bod statws y Pwyllgor wedi cael ei israddio ers i haen arall o reolaeth yn Rhaglen yr SRA ddechrau.

Cyfeiriodd yr aelodau at y materion canlynol a gofnodwyd yn y cofnodion:-
1. £2miliwn i'w wario ar eiddo gwag ym Mae Colwyn
2. Datganiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod rhai eiddo eisoes wedi cael eu prynu – lleoliad yr eiddo yma.
3. Diffyg mannau agored i chwarae yng nghanol y Dref yn Wardiau Glyn/Rhiw.
4. Argaeledd Prif Gynllun drafft Colwyn a Chynlluniau Cymunedol i'r Cyngor Tref.

Penderfynwyd derbyn y cofnodion a'u nodi.

Fe benderfynwyd ymhellach bod y Clerc i geisio esboniad gan y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar y materion a godwyd gan yr aelodau.

357 GORCHYMYN TRAFFIG, FFORDD PENRHYN, BAE COLWYN:

Cyflwynodd y Clerc hysbysiad am Orchymyn Traffig ar gyfer Ffordd Penrhyn, Bae Colwyn. Bydd y rheoliad mewn grym o 11/01/2010 – 03/04/2010.

Ceisiodd yr aelodau cadarnhad mai'r bwriad oedd gau'r ffordd yn rhannol h.y. un lôn ar y tro.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r Gorchymyn Traffig.

Fe benderfynwyd ymhellach bod y Clerc i geisio cadarnhad bod y ffordd i'w gau yn rhannol yn unig.

358 YMDDIRIEDOLAETH MEYSYDD CHWARAE'R COFEBION RHYFEL:

Cyflwynodd y Clerc llythyr oddi wrth Ymddiriedolaeth Meysydd Chwarae'r Cofebion Rhyfel parthed rhestr eiddo o'r fath feysydd.

Dywedodd y Clerc nad oedd unrhyw feysydd o'r fath yn ardal y Cyngor.

Penderfynwyd derbyn y llythyr.

359 CASGLIADAU SCOPE:

Cyflwynodd y Clerc llythyr, er gwybodaeth, oddi wrth Scope parthed dyddiadau eu Casgliadau Blynyddol o Dŷ i Dŷ ar gyfer 2010 a 2011 fel a ganlyn:-

5th – 25th Ebrill 2010
4th – 24th Ebrill 2011

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

360 CYMDEITHAS TRIGOLION HEN GOLWYN:

Cyflwynwyd copi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9fed Rhagfyr 2009 er gwybodaeth.

Penderfynwyd derbyn y cofnodion.

361 CEISIADAU CYNLLUNIO:

Ystyriwyd y ceisiadau cynllunio a gyflwynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. (gweler y rhestr sydd ynghlwm).

Daeth y cyfarfod i ben am 7.35 pm